Gallwch ddefnyddio'r templed isod ar gyfer e-bost i ofyn am gyfarfod gydag ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr yr etholiad.

Yn ystod cyfnod yr etholiad, bydd ymgeiswyr yn derbyn gwahoddiadau i gyfarfodydd gan lawer o grwpiau cymunedol, felly cofiwch anfon e-bost neu ffonio os na fyddwch yn derbyn ateb.

Mae'n ddefnyddiol cynnwys cyd-destun lleol yn eich gwahoddiad i gyfarfod a thynnu sylw at yr heriau amgylcheddol penodol y mae eich ardal yn eu hwynebu. Defnyddiwch ein hadnodd Cyflwr yr Amgylchedd i ddod o hyd i ddata lleol. Y cyfan sy'n rhaid ei wneud yw rhoi'ch côd post i mewn i dderbyn gwybodaeth am eich ardal leol: groups.friendsoftheearth.uk/near-you/constituency

Annwyl [enw'r ymgeisydd]

Rydym yn ysgrifennu atoch o [enw grŵp a phartneriaid lleol] i ofyn am gyfarfod i glywed am eich cynlluniau i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur os cewch eich ethol.

Nid yw'r argyfwng hinsawdd wedi diflannu ers COVID-19. Mewn gwirionedd, mae wedi gwaethygu. Ar 1 radd o gynhesu, rydym eisoes yn gweld effeithiau brawychus y dirywiad yn yr hinsawdd. Yn y DU, rydym yn wynebu llifogydd dinistriol a thywydd poeth na welwyd ei debyg o'r blaen, ac mae pobl dramor o rai o wledydd tlotaf y byd yn gorfod ffoi o'u cartrefi oherwydd tywydd eithafol.

Mae ymchwil diweddar gan Gyfeillion y Ddaear wedi dangos bod ein cymuned ni yma yn [etholaeth] eisoes yn cael ei heffeithio. [Defnyddiwch yr adroddiad Cyflwr yr Amgylchedd i gynnwys data lleol*]*.

Oni bai y bydd ein harweinwyr yn gweithredu ar frys, gwyddom y bydd yr argyfwng hinsawdd yn parhau i waethygu, gyda'r rhai mwyaf agored i niwed yn teimlo'r effaith fwyaf. Fodd bynnag, mae dyfodol gwell *yn* bosibl, ac rydym yn gwybod sut y dylai'r atebion hyn edrych. Hoffem gwrdd â chi i drafod yr atebion hyn a darganfod sut y byddwch yn gweithredu arnynt os cewch eich ethol.

Rydym yn eich annog i weithredu. Mae'n rhaid i'r Llywodraeth nesaf:

1. Cyflwyno cynllun gweithredu hinsawdd newydd uchelgeisiol sy'n cyflawni ein haddewid byd-eang i helpu i atal newid trychinebus yn yr hinsawdd.

2. Trwsio cartrefi yn y DU sy'n gollwng gwres drwy fuddsoddi £6 biliwn y flwyddyn mewn rhaglen inswleiddio cartrefi fesul stryd dan arweiniad cynghorau i leihau biliau ac allyriadau.

3. Dod â'r sgandal carthion i ben a chymryd camau i lanhau'r llygredd yn y dŵr a'r aer sy'n niweidio ein hiechyd ac yn bygwth ein dyfrffyrdd, bywyd gwyllt a natur.

4. Gweithredu i sicrhau bod y DU yn chwarae ei rhan mewn ymdrechion byd-eang i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

[Golygwch neu ychwanegwch at ein gofynion ar gyfer yr etholiad cyffredinol i ganolbwyntio ar y materion allweddol y mae eich grŵp yn ymgyrchu yn eu cylch. Darganfyddwch fwy o fanylion am ofynion ein hymgyrch.]

Hoffem gwrdd â chi cyn gynted ag sy'n bosibl i drafod yr atebion hyn gyda chi, a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Gallwch gysylltu â ni yn [e-bost eich grŵp] ac ar [rhif symudol] - edrychwn ymlaen yn fawr at glywed gennych yn fuan.

Dymuniadau gorau

[Eich enw ac enw'ch grŵp]